



Deddf Diogelu'r Amgylchedd
(Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)
2023

2023 dsc 2

Nodiadau Esboniadol

The Environmental Protection (Single-use
Plastic Products) (Wales) Act 2023

2023 asc 2

Explanatory Notes

£6.90

DEDDF DIOGELU'R AMGYLCHEDD (CYNHYRCHION PLASTIG UNTRO) (CYMRU) 2023

NODIADAU ESBONIADOL

RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 a basiwyd gan Senedd Cymru ar 6 Rhagfyr 2022 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 6 Mehefin 2023. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohono.

CRYNODEB A'R CEFNDIR

2. Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru ynghylch effaith amgylcheddol cynhyrchion plastig untro tafladwy diangen sy'n cael eu taflu fel sbwriel cyffredin.
3. Lluniwyd y Ddeddf hon yn dilyn cyhoeddi'r papur ymgynghori 'Lleihau'r defnydd o blastig untro' yn 2020, a oedd yn cynnwys cynigion i wahardd wyth o gynhyrchion plastig untro a chynhyrchion a wnaed o blastig ocsoddiraddiadwy sy'n cael eu taflu fel sbwriel cyffredin yng Nghymru. Cynhaliwyd rhagor o waith ymgysylltu yn 2022 gyda rhanddeiliaid ynghylch dau gynnyrch plastig untro arall.
4. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys cyflenwi am ddim), ddeg o gynhyrchion plastig untro a chynhyrchion a wnaed o blastig ocsoddiraddiadwy i ddefnyddiwr yng Nghymru ac yn sefydlu cyfundrefn orfodi a arweinir gan awdurdodau lleol.
5. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 23 o adrannau ac Atodlen.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 - Cysyniadau allweddol: "cynnyrch plastig", "untro" a "plastig"

6. Mae'r adran hon yn darparu diffiniadau ar gyfer y cysyniadau allweddol o dan y Ddeddf: 'untro', 'cynnyrch plastig', 'plastig' a 'polymer'.
7. Mae'r adran hon hefyd yn egluro mai dim ond bagiau siopa a wnaed o ffilm blastig nad yw'n fwy na 49 o ficronau o drwch sy'n cael eu hystyried i fod yn fagiau siopa untro at ddibenion y Ddeddf.

Adran 2 - Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig

8. Mae'r adran hon yn sefydlu'r cysyniad o 'cynnyrch plastig untro gwaharddedig' o dan y Ddeddf.

THE ENVIRONMENTAL PROTECTION (SINGLE- USE PLASTIC PRODUCTS) (WALES) ACT 2023

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Environmental Protection (Single-use Plastic Products) (Wales) Act 2023 which was passed by Senedd Cymru on 6 December 2022 and received Royal Assent on 6 June 2023. They have been prepared by the Climate Change and Rural Affairs Group of the Welsh Government in order to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

SUMMARY AND BACKGROUND

2. The aim of the Act is to address the Welsh Government's concerns around the environmental impact of disposable, unnecessary and commonly littered single use-plastic products.
3. This Act has been developed following publication of the consultation paper 'Reducing single use plastics' in 2020, which included proposals to ban eight commonly littered single use plastic products and products made of oxo-degradable plastic in Wales. Further engagement work was undertaken in 2022 with stakeholders on two other single use plastic products.
4. The Act makes it an offence for a person to supply or offer to supply (including for free), ten single-use plastic products and products made of oxo-degradable plastic to a consumer in Wales and establishes a local authority led enforcement regime.
5. The Act is comprised of 23 sections and a Schedule.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 – Key concepts: “plastic product”, “single-use” and “plastic”

6. This section provides definitions for the key concepts under the Act: 'single-use', 'plastic product', 'plastic' and, 'polymer'.
7. This section also clarifies that it is only carrier bags made from plastic film that is no greater than 49 microns in thickness that are considered to be single use carrier bags for the purpose of the Act.

Section 2 – Prohibited single-use plastic products

8. This section establishes the concept of a 'Prohibited single-use plastic product' under the Act.

9. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno'r Tabl yn yr Atodlen i'r Ddeddf sy'n rhestru'r cynhyrchion hynny sy'n gynhyrchion plastig untro gwaharddedig at ddiben y Ddeddf.
10. Bydd person sy'n cyflenwi neu'n cynnig cyflenwi cynnyrch plastig untro a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl yn yr Atodlen i ddefnyddiwr yng Nghymru yn cyflawni'r drosedd o dan adran 5, oni bai bod esemptiad cyfatebol wedi ei restru mewn cysylltiad â'r cynnyrch hwnnw yng ngholofn 2 o'r Tabl.
11. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi canllawiau ynghylch y cynhyrchion plastig untro sy'n waharddedig o dan y Ddeddf, a sut y dylid cymhwyso unrhyw esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl.

Adran 3 - Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig: pŵer i ddiwygio

12. Mae'r adran hon yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau i ddiwygio'r Atodlen drwy:
 - ychwanegu neu ddileu cynnyrch yng ngholofn 1 o'r Tabl yn yr Atodlen;
 - ychwanegu neu ddileu esemptiad sy'n ymwneud â chynnyrch yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen; a
 - gwneud diwygiadau eraill yn unol â'r adran hon.
13. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol cyn gwneud rheoliadau o dan y pwerau yn adran 3:
 - awdurdodau lleol,
 - Cyfoeth Naturiol Cymru, ac unrhyw gyrff eraill yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn ymwneud â hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru,
 - y personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau cynhyrchwyr neu gyflenwyr cynhyrchion plastig untro yng Nghymru,
 - y personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau pobl sydd â nodwedd warchoddedig o fewn yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15), ac y gall y rheoliadau gael effaith benodol arnynt am y rheswm hwnnw, ac
 - unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

Adran 4 - Pŵer i ddiwygio: dyletswyddau sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy ac adrodd

14. Mae'r adran hon yn darparu, wrth ystyried arfer pwerau yn adran 3 i ddiwygio'r Atodlen, fod rhaid i Weinidogion Cymru ystyried eu dyletswydd i hybu datblygu cynaliadwy o dan adran 79(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ('DLIC') ac i gyflawni datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

9. This section also introduces the Table in the Schedule to the Act which lists those products that are prohibited single-use plastic products for the purpose of the Act.
10. A person supplying or offering to supply a single-use plastic product listed in column 1 of the table in the Schedule to a consumer in Wales would be committing the offence under section 5, unless a corresponding exemption is listed in respect of that product in column 2 of the Table.
11. This section also requires Welsh Ministers to prepare and publish guidance about the single-use plastic products prohibited under the Act, and how any exemptions listed under column 2 of the Table should be applied.

Section 3 – Prohibited single-use plastic products: power to amend

12. This section provides the Welsh Ministers with a regulation making power to amend the Schedule by:
 - adding or removing a product in column 1 of the Table in the Schedule;
 - adding or removing an exemption relating to a product in column 2 of the Table in the Schedule; and
 - making other amendments in accordance with this section.
13. This section also requires the Welsh Ministers to consult the following before making regulations under the powers in section 3:
 - local authorities,
 - Natural Resources Wales and any other bodies appearing to the Welsh Ministers to be concerned with promoting the protection of the environment in Wales,
 - such persons as the Welsh Ministers consider represent the interests of producers or suppliers of single-use plastic products in Wales,
 - such persons as the Welsh Ministers consider represent the interests of people who have a protected characteristic within the meaning given in section 4 of the Equality Act 2010 (c. 15), and on whom the regulations may have a particular impact for that reason, and
 - such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.

Section 4 - Power to amend: duties relating to sustainable development and reporting

14. This section provides that when considering the exercise of powers in section 3 to amend the Schedule, the Welsh Ministers must consider their duty to promote sustainable development under section 79(1) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32) ('GOWA') and to carry out sustainable development under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw 2).

15. Yn yr adroddiad y mae'n ofynnol iddynt ei gyhoeddi o dan adran 79(2) o DLIC, rhaid i Weinidogion Cymru esbonio eu hystyriaeth o unrhyw gynlluniau i arfer y pwerau yn adran 3 i ychwanegu rhagor o gynhyrchion plastig untro i golofn 1 o'r Tabl yn yr Atodlen. Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w hystyriaeth ynghylch pa un ai i ychwanegu weips a bagiau bach o saws at golofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen.
16. Yn yr adroddiad sy'n ofynnol o dan adran 79(2) o DLIC, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd esbonio unrhyw ystyriaeth a roddwyd ganddynt i arfer y pwerau o dan adran 3 i ddileu esemptiadau o golofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen, yn enwedig yr esemptiadau ar gyfer cwpanau, caeadau a chynhwysyddion nad ydynt wedi eu gwneud o bolystyren.

Trosedd

Adran 5 - Y drosedd o gyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig

17. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr yng Nghymru.
18. Mae is-adran (1) yn darparu bod person (a ddisgrifir yn is-adran (2)), yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw:
 - yn cyflenwi (fel y'i ddiffinnir yn is-adran (3)) gynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys trefnu i ddanfôn y cynnyrch i ddefnyddiwr mewn cyfeiriad yng Nghymru;
 - yn cynnig cyflenwi (fel y'i ddiffinnir yn is-adran (4)) gynnyrch plastig untro gwaharddedig drwy ei arddangos, neu ei wneud yn hygyrch i ddefnyddiwr neu ei roi ar gael i ddefnyddiwr mewn mangre yng Nghymru.
19. Mae is-adran (2) yn darparu na ellir cyflawni'r troseddau yn is-adran (1) ond gan y personau a ganlyn ("P"):
 - corff corfforedig (gan gynnwys corff sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus);
 - partneriaeth;
 - cymdeithas anghorfforedig heblaw partneriaeth;
 - person sy'n gweithredu fel unig fasnachwr.
20. Mae is-adran (3) yn darparu bod P yn cyflawni'r drosedd o gyflenwi os yw naill ai P neu berson sy'n atebol i P yn gwerthu'r cynnyrch, neu'n darparu'r cynnyrch am ddim i ddefnyddiwr.
21. Mae is-adran (4) yn darparu bod P yn cynnig cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig o dan is-adran (1) os yw naill ai P neu berson sy'n atebol i P yn arddangos y cynnyrch yn y fangre (er enghraifft mewn ffenestr siop) neu'n cadw'r cynnyrch yn y fangre fel ei fod yn hygyrch i ddefnyddiwr, neu ar gael i ddefnyddiwr, yn y fangre (er enghraifft ar gownter siop).

15. In the report they are required to publish under section 79(2) of GOWA, the Welsh Ministers must explain their consideration of any plans to exercise the powers in section 3 to add further single-use plastic products to column 1 of the Table in the Schedule. This includes, but is not limited to their consideration of whether to add wet wipes and sauce sachets to column 1 of the Table in paragraph 1 of the Schedule.
16. In the report required under section 79(2) of GOWA, the Welsh Ministers must also explain any consideration they have given to exercise the powers under section 3 to remove exemptions from column 2 of the Table in the Schedule, particularly the exemptions for cups, lids and containers that are not made of polystyrene.

Offence

Section 5 - Offence of supplying prohibited single-use plastic products

17. This section makes it an offence for a person to supply or offer to supply a prohibited single-use plastic product to a consumer in Wales.
18. Subsection (1) provides that a person described in subsection (2), commits an offence if that person:
 - supplies (as defined in subsection (3)) a prohibited single-use plastic product to a consumer who is in Wales. This includes arranging for the delivery of the product to a consumer at an address in Wales;
 - offers to supply (as defined in subsection (4)) a prohibited single-use plastic product by displaying it, or making it accessible or available to a consumer, on premises in Wales.
19. Subsection (2) provides that the offences in subsection (1) can only be committed by the following persons ("P"):
 - a body corporate (including a body exercising any function of a public nature);
 - a partnership;
 - an unincorporated association other than a partnership;
 - or a person acting as a sole trader.
20. Subsection (3) provides that P commits the offence of supply if either P or a person accountable to P sells the product, or provides it to a consumer free of charge.
21. Subsection (4) provides that P offers to supply a prohibited single-use plastic product under subsection (1) if either P or a person accountable to P displays the product on the premises (for example in a shop window) or keeps the product on the premises so that it is accessible by, or available to, a consumer at the premises (for example on a shop counter).

22. Mae is-adran (5) yn darparu bod person yn "atebol i P" os yw'r person hwnnw:
- yn gyflogai i P,
 - â chontract ar gyfer gwasanaethau gyda P,
 - yn asiant i P, neu
 - fel arall yn ddarostyngedig i reoli, rheolaeth neu oruchwyliaeth P,
- a bod y person hwnnw –
- yn gweithredu yng nghwrs busnes, masnach neu broffesiwn P,
 - yn gweithredu mewn perthynas ag arfer swyddogaethau P gan P,
 - yn gweithredu mewn perthynas ag amcanion neu ddibenion P, neu
 - fel arall yn gweithredu o dan reoli, rheolaeth neu oruchwyliaeth P.
23. Mae is-adran (6) yn egluro, at ddiben y drosedd o gyflenwi, pan ddangosir bod P wedi trefnu i gynnyrch gael ei ddanfôn i ddefnyddiwr mewn cyfeiriad yng Nghymru drwy'r post neu drwy unrhyw ddull arall, y bernir bod y cynnyrch wedi ei gyflenwi i'r defnyddiwr yn y cyfeiriad y mae P yn trefnu i'r cynnyrch gael ei ddanfôn iddo, hyd yn oed os caiff ei ddanfôn i gyfeiriad arall neu nad yw'n cael ei ddanfôn o gwbl.
24. Mae is-adran (7) yn darparu amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan is-adran (1) i ddangos ei fod wedi arfer diwydrwydd dyladwy ac wedi cymryd pob rhagofal rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd. Os dibynnir ar yr amddiffyniad, mae is-adran (8) yn egluro ar bwy y mae'r baich profi yn gorffwys. Os codir tystiolaeth ddigonol, mae'r baich o wrthbrofi'r amddiffyniad y tu hwnt i amheuaeth resymol yn gorffwys ar yr erlyniad.
25. Mae is-adran (9) yn nodi, mewn achos ar gyfer trosedd o dan is-adran (1), bydd honiad bod cynnyrch yn gynnyrch plastig untro a restrir yng nghlofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen yn cael ei dderbyn fel ei fod wedi ei brofi yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb.
26. Mae is-adran (10) yn darparu eglurhad, pan gyflenwir dau neu ragor o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig, neu pan gynnigir cyflenwi dau neu ragor o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig, gyda'i gilydd, at ddibenion is-adran (1) fod hyn i'w drin fel un weithred gyflenwi, neu gynnig i gyflenwi, cynnyrch plastig untro gwaharddedig.
27. Mae is-adran (11) yn darparu, at ddibenion yr adran hon, mai ystyr 'defnyddiwr' yw unigolyn sy'n gweithredu at ddibenion sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf y tu allan i fasnach, busnes neu broffesiwn yr unigolyn hwnnw (pa un ai'r unigolyn a brynodd y cynnyrch ai peidio). Er enghraifft, byddai unigolyn sy'n prynu platiau plastig untro i'w defnyddio yn ei gartref yn cael ei ystyried yn ddefnyddiwr at ddibenion y Ddeddf, tra na fyddai unigolyn sy'n prynu platiau plastig untro o gyfanwerthwr ar ran bwyty lle y mae'r unigolyn yn gweithio yn cael ei ystyried yn ddefnyddiwr at ddibenion y Bil. Fodd bynnag, byddai cyflenwi plât o'r fath gan y bwyty hwnnw i ddefnyddiwr yng Nghymru yn drosedd.

Adran 6 - Trosedd: dull treial a chosb

28. Mae'r adran hon yn darparu bod y drosedd o dan adran 5 yn drosedd ddiannod ac felly yn drosedd y gellir ei rhoi ar brawf yn y Llys Ynadon. Os ceir person yn euog o'r drosedd, caiff y Llys osod dirwy ddiderfyn.

22. Subsection (5) provides that a person is “accountable to P” if that person:
- is an employee of P,
 - has a contract for services with P,
 - is an agent of P, or
 - is otherwise subject to the management, control or oversight of P,
- and that person is –
- acting in the course of P’s business, trade or profession,
 - acting in relation to the exercise by P of P’s functions,
 - acting in relation to P’s objects or purposes, or
 - otherwise acting under the management, control or oversight of P.
23. Subsection (6) clarifies that for the purpose of the offence of supply, where P is shown to have arranged for a product to be delivered to a consumer at an address in Wales by post or any other means, it is deemed to have been supplied to the consumer at the address to which P arranges for it to be delivered, even if it is delivered to another address or is not delivered at all.
24. Subsection (7) provides a defence for a person charged with an offence under subsection (1) to show they exercised due diligence and took all reasonable precautions to avoid committing it. If the defence is relied on, subsection (8) clarifies where the burden of proof lies. If sufficient evidence is raised, the burden of disproving the defence beyond reasonable doubt rests with the prosecution.
25. Subsection (9) sets out that in proceedings for an offence under subsection (1), an allegation that a product was a single-use plastic product listed in column 1 of the Table in paragraph 1 of the Schedule will be accepted as proved in the absence of evidence to the contrary.
26. Subsection (10) provides clarification that where two or more prohibited single-use plastic products are supplied, or offered for supply, together, for the purposes of subsection (1) this is to be treated as a single act of supply, or offering to supply, of a prohibited single-use plastic product.
27. Subsection (11) provides that for the purposes of this section ‘consumer’ means an individual acting for purposes that are wholly or mainly outside that individual’s trade, business or profession (whether or not the individual purchased the product). For example, an individual purchasing single-use plastic plates for use in their home would be considered a consumer for the purposes of the Act, while an individual purchasing single-use plastic plates from a wholesaler on behalf of a restaurant at which they work would not. However, the onward supply by that restaurant of such a plate to a consumer in Wales would constitute an offence.

Section 6 - Offence: mode of trial and penalty

28. This section provides that the offence under section 5 is a summary offence and so is triable in the Magistrates’ Court. If a person is found guilty of the offence, the Court may impose an unlimited fine.

Gorfodi

Adran 7 - Camau gorfodi gan awdurdodau lleol

29. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff awdurdod lleol ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throeddau o dan adran 5 o'r Ddeddf yr honnir eu bod wedi eu cyflawni yn ei ardal, caiff awdurdod lleol ddwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throeddau o dan adran 5 o'r Ddeddf a gyflawnwyd yn ei ardal a chaiff awdurdod lleol gymryd camau eraill gyda'r nod o leihau mynychder troeddau o'r fath yn ei ardal.
30. Mae is-adran (2) yn esbonio bod unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf at swyddog awdurdodedig awdurdod lleol yn gyfeiriad at unrhyw berson a awdurdodir gan yr awdurdod lleol.

Adran 8 - Pŵer i wneud pryniannau prawf

31. Mae'r adran hon yn galluogi swyddog awdurdodedig i wneud pryniannau a threfniadau, a sicrhau y darperir gwasanaethau os yw'r swyddog yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol at ddiben swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf hon. Er enghraifft mae hyn yn caniatáu i bryniannau prawf ddigwydd.

Adran 9 - Pŵer mynediad

32. Mae'r adran hon yn galluogi swyddog awdurdodedig i fynd, ar unrhyw adeg resymol, i fangre (ac eithrio mangre breswyl) os oes gan y swyddog seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 5 wedi ei chyflawni yn ardal yr awdurdod lleol, a bod y swyddog yn ystyried ei fod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a gyflawnwyd y drosedd honno. Nid yw'r pŵer hwn i fynd i fangre yn galluogi'r swyddog awdurdodedig i fynd i fangre drwy rym. Os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid i swyddog awdurdodedig, cyn mynd i'r fangre, ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad.
33. Mae is-adran (5) yn egluro, at ddibenion adrannau 9, 10 ac 11 o'r Ddeddf, mai ystyr "mangre breswyl" yw mangre, neu unrhyw ran o fangre, a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd.

Adran 10 - Pŵer mynediad: mangreoedd preswyl

34. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant i alluogi swyddog awdurdodedig i fynd i fangre breswyl o dan amgylchiadau penodol.
35. Ni chaniateir dyroddi gwarant ond pan fo'r ynad heddwch wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw bod seiliau rhesymol i gredu bod trosedd o dan adran 5 wedi ei chyflawni yn ardal yr awdurdod lleol, a'i bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod pa un a yw'r drosedd honno wedi ei chyflawni. Caniateir cael mynediad drwy rym pe bai angen.
36. Bydd unrhyw warant o'r fath mewn grym am y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

Enforcement

Section 7 - Enforcement action by local authorities

29. Subsection (1) provides that a local authority may investigate complaints in respect of alleged offences under section 5 of the Act in its area, may bring prosecutions in respect of offences under section 5 of the Act in its area and may take other steps with a view to reducing the incidence of such offences in its area.
30. Subsection (2) explains that any reference in the Act to an authorised officer of a local authority is to any person authorised by the local authority.

Section 8 - Power to make test purchases

31. This section enables an authorised officer to make purchases and arrangements, and secure the provision of services if the officer considers it necessary for the purpose of the local authority's functions under this Act. This permits test purchases for example, to take place.

Section 9 - Power of entry

32. This section enables an authorised officer to enter, at any reasonable time, premises (excluding residential premises) if the officer has reasonable grounds to believe that an offence under section 5 has been committed in the area of the local authority, and the officer considers it necessary to enter the premises for the purpose of finding out whether such an offence has been committed. This power to enter premises does not enable the authorised officer to enter by force. If required, an authorised officer must, before entering the premises, show evidence of their authorisation.
33. Subsection (5) clarifies that for the purposes of sections 9, 10 and 11 of the Act, "residential premises" means premises, or any part of premises, used wholly or mainly as a dwelling.

Section 10 - Power of entry: residential premises

34. This section provides that a justice of the peace may issue a warrant to enable an authorised officer to enter residential premises in certain circumstances.
35. A warrant may be issued only where the justice of the peace is satisfied on sworn information in writing that there are reasonable grounds to believe that an offence under section 5 has been committed in the area of the local authority, and that it is necessary to enter the premises for the purpose of establishing whether such an offence has been committed. Entry may be obtained by force if need be.
36. Any such warrant will be in force for the period of 28 days beginning with the date it was issued.

Adran 11 – Pŵer mynediad: amgylchiadau eraill pan fo gwarant yn angenrheidiol

37. Os oes angen cael mynediad i fangre nad yw'n fangre breswyl (sefyllfa yr ymdrinnir â hi o dan adran 10) oherwydd bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 5 wedi ei chyflawni, a bod angen mynediad i ganfod pa un a gyflawnwyd trosedd o'r fath ai peidio, mae'r adran hon yn galluogi ynad heddwch i ddyroddi gwarant yn awdurdodi swyddog awdurdodedig i fynd i fangre o'r fath, drwy rym pe bai angen. Rhaid i'r fangre y ceisir mynediad iddi o dan yr adran hon gael ei defnyddio at ddibenion busnes, neu at ddiben busnes ac fel preswylfa.
38. Er mwyn i warant gael ei dyroddi, rhaid bodloni un neu ragor o'r gofynion a nodir yn is-adrannau (3) i (4). Mae'r gofynion hynny yn cynnwys bod gofyn am fynd i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod a bod hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant wedi ei roi; a bod gofyn am fynd i'r fangre, neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant, yn debygol o danseilio diben y mynediad.
39. Bydd unrhyw warant o'r fath mewn grym am y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

Adran 12 – Pwerau mynediad: atodol

40. Mae is-adran (1) yn galluogi swyddog awdurdodedig sydd wedi mynd i fangre o dan y pwerau a nodir yn adrannau 9, 10 neu 11 fynd ag unrhyw bersonau eraill ac unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol.
41. Mae is-adran (2) yn nodi bod y pwerau mynediad o dan adran 9, 10, neu 11 hefyd yn gymwys i gerbydau.
42. Mae is-adran (3) yn nodi os yw swyddog awdurdodedig yn gweithredu gwarant a ddyroddir o dan adrannau 10 neu 11 o'r Ddeddf pan fydd y meddiannydd yn bresennol, rhaid iddo hysbysu'r meddiannydd ynghylch ei enw, cyflwyno tystiolaeth ddogfennol o'i awdurdod a chyflenwi copi o'r warant i'r meddiannydd.
43. Mae is-adran (4) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, rhaid i'r swyddog awdurdodedig ei gadael wedi ei diogelu yn un mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

Adran 13 – Pŵer arolygu

44. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i swyddogion awdurdodedig sy'n mynd i fangre o dan adrannau 9, 10 neu 11 wneud amryw o bethau i ganfod a yw trosedd o dan adran 5 wedi ei chyflawni. Caiff swyddogion gynnal arolygiadau ac archwiliadau yn y fangre. Caiff swyddogion hefyd ofyn am eitemau, eu harolygu, cymryd samplau ohonynt a/neu fynd â'r eitem(au) a/neu'r samplau o'r fangre. Er enghraifft, efallai y bydd swyddogion yn dymuno gwyllo lluniau Teledu Cylch Cyfyng o'r fangre, neu fel arall fynd â dogfennau neu gopiâu o ddogfennau.
45. Caiff y swyddog hefyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybodaeth a chymorth, ond nid yw'n ofynnol i'r person hwnnw ateb unrhyw gwestiwn neu gyflwyno unrhyw ddogfen y byddai hawl ganddo i wrthod ei ateb neu wrthod ei chyflwyno mewn achos mewn llys yng Nghymru a Lloegr.

Section 11 – Power of entry: other circumstances requiring warrant

37. If access to premises that are not residential premises (dealt with under section 10) is required because there are reasonable grounds to believe that an offence under section 5 has been committed, and entry is necessary to ascertain whether or not such an offence has taken place, this section enables a justice of the peace to issue a warrant authorising an authorised officer to enter such premises, if needs be by force. The premises to which entry is being sought under this section must be used for business purposes, or for use both as a business and a residence.
38. In order for a warrant to be issued, one or more of the requirements set out in subsections (3) to (4) must be met. The requirements include that a request to enter the premises has been, or is likely to be, refused and notice of intention to apply for a warrant has been given; and that requesting to enter, or giving notice of an intention to apply for a warrant, is likely to defeat the purpose of the entry.
39. Any such warrant will be in force for the period of 28 days beginning with the date it was issued.

Section 12 – Powers of entry: supplementary

40. Subsection (1) enables an authorised officer who has entered premises under the powers set out in sections 9, 10 or 11 to take with them any other persons and equipment as they consider appropriate.
41. Subsection (2) sets out that the powers of entry under section 9, 10, or 11 also apply to vehicles.
42. Subsection (3) sets out that if an authorised officer executes a warrant issued under sections 10 or 11 of the Act when the occupier is present, they must inform the occupier of their name, provide documentary evidence of their authority and supply the occupier with a copy of the warrant.
43. Subsection (4) also requires that if the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent, the authorised officer must leave them as effectively secured against unauthorised entry as the officer found them.

Section 13 – Power of inspection

44. This section confers powers on authorised officers entering premises under sections 9, 10 or 11 to do various things so as to find out whether an offence under section 5 has been committed. Officers may carry out inspections and examinations of premises. Officers may also request items, inspect them, take samples from them and/or take the item(s) and/or samples from the premises. For example, officers may wish to review CCTV footage of the premises, or likewise take documents or copies of documents.
45. The officer may also require information and help from any person, but that person is not required to answer any questions or produce any document which they would be entitled to refuse to answer or produce in the course of court proceedings in England and Wales.

46. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig adael yn y fangre ddatganiad sy'n rhoi manylion unrhyw eitemau sydd wedi eu cymryd ac sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd.
47. Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd fel pe bai'n fangre.

Adran 14 - Y drosedd o rwystro etc. swyddogion

48. Mae is-adran (1) yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro yn fwriadol swyddog awdurdodedig rhag arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 9 i 13.
49. Mae is-adran (2) yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'r person, heb achos rhesymol, yn methu â darparu i swyddog awdurdodedig gyfleusterau y mae'n rhesymol i'r swyddog awdurdodedig eu gwneud yn ofynnol o dan adran 13(1) neu os yw'n methu â chydymffurfio â gofyniad o dan adran 13(1)(b), (d) neu (4)(b) megis darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion sydd o fewn rheolaeth y person hwnnw.
50. Mae is-adran (3) yn nodi bod person a geir yn euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Nodir lefelau'r raddfa safonol yn adran 122 o Ddeddf Dedfrydu 2020 (p. 17).
51. Mae is-adran (4) yn darparu nad yw gwrthod ateb unrhyw gwestiwn neu wrthod cyflwyno unrhyw ddogfen y byddai hawl gan y person i wrthod ei ateb neu wrthod ei chyflwyno mewn achos mewn llys yng Nghymru a Lloegr yn drosedd o dan yr adran hon.

Adran 15 - Eiddo a gedwir: apelau

52. Mae'r adran hon yn galluogi person a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth yr eir ymaith ag ef o'r fangre gan swyddog awdurdodedig o dan adran 13(1)(c) i wneud cais i lys ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo gael ei ryddhau. Yn dibynnu ar ystyriaeth y llys o gais, caiff y llys wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.

Adran 16 - Eiddo a gyfeddir: digolledu

53. Mae'r adran hon yn darparu hawl i berson a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y cymerwyd meddiant ohono o dan adran 13(1)(c) wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Pan fo'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) wedi eu bodloni, caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol dalu digollediad i'r ceisydd. Yr amgylchiadau yw bod eiddo wedi ei gymryd; nad oedd yn angenrheidiol cymryd yr eiddo i ganfod a oedd trosedd o dan adran 5 wedi ei chyflawni; bod y ceisydd wedi dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad i hynny; ac nad oedd y golled neu'r difrod oherwydd esgeulustod neu ddiffyg y ceisydd ei hun.

Adran 17 - Sanctsiynau sifil

54. Mae'r adran hon yn galluogi rheoliadau sy'n darparu ar gyfer sanctsiynau sifil i gael eu gwneud mewn cysylltiad â throseddau sy'n cael eu creu o dan adran 5 o'r Ddeddf. Mae'r pŵer hwn yn cyfateb i'r pŵer hwnnw yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008 (p. 13) ("DGRhS").

46. The authorised officer must leave on the premises a statement detailing any items that have been taken and identifying the person to whom a request for the return of property may be made.
47. This section also applies to a vehicle as if it were premises.

Section 14 - Offence of obstruction etc. of officers

48. Subsection (1) provides that a person commits an offence if they intentionally obstruct an authorised officer from exercising their functions under sections 9 to 13.
49. Subsection (2) provides that a person commits an offence if, without reasonable cause, they fail to provide an authorised officer with facilities that are reasonably required under section 13(1) or they fail to comply with a requirement under section 13(1)(b), (d) or (4)(b) such as providing information relating to matters within that person's control.
50. Subsection (3) sets out that a person found guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale. The levels on the standard scale are set out in section 122 of the Sentencing Act 2020 (c. 17).
51. Subsection (4) provides that refusal to answer questions or provide documents that the person would be entitled to refuse to answer or produce in a court in Wales or England does not constitute an offence under this section.

Section 15 - Retained property: appeals

52. This section enables a person with an interest in anything taken away from the premises by an authorised officer under section 13(1)(c) to apply to a magistrates' court for an order requesting the release of the property. Depending on the court's consideration of an application, it may make an order requiring the release of the retained property.

Section 16 - Appropriated property: compensation

53. This section provides a right for a person with an interest in anything which has been taken possession of under section 13(1)(c) to apply to a magistrates' court for compensation. Where the circumstances set out in subsection (2) are satisfied, the court may order the local authority to pay compensation to the applicant. The circumstances are that property has been taken; that it was not necessary to take the property to discover whether an offence under section 5 had been committed; that the applicant has suffered loss or damage as a result; and that the loss or damage was not due to the applicant's own neglect or default.

Section 17 - Civil sanctions

54. This section enables regulations providing for civil sanctions to be made in respect of criminal offences created under section 5 of the Act. This power corresponds to that in Part 3 of the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 (c. 13) ("RESA").

55. Mae Rhan 3 o DGRhS yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer pwerau sancsiynu sifil amgen ar gyfer troseddau perthnasol sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio rheoleiddiol. Y sancsiynau sifil sydd ar gael o dan DGRhS yw cosbau ariannol penodedig, gofynion yn ôl disgrisiwn, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi. Maent yn ddewis amgen i euogfarn droseddol, yn hytrach nag yn cymryd lle euogfarn droseddol, yn enwedig ar gyfer mân achosion o dorri gofynion rheoleiddiol.
56. Mae is-adran (3) yn cymhwyso adran 63 i 69 o DGRhS i reoliadau a wneir o dan yr adran hon fel y byddent yn gymwys i orchymyn a wneir o dan Ran 3 o DGRhS. Nodir effaith is-adran (3) yn y paragraffau a ganlyn.
57. Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi pŵer i awdurdod lleol i osod sancsiwn sifil mewn perthynas â throsedd, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd sicrhau'r canlyniadau a ganlyn (gweler adran 63 o DGRhS) –
- bod yr awdurdod yn cyhoeddi canllawiau ar ei ddefnydd o'r sancsiwn;
 - bod y canllawiau hynny yn cynnwys gwybodaeth benodedig, gan ddibynnu ar y math o sancsiwn – megis o dan ba amgylchiadau y mae cosb ariannol neu hysbysiad stop yn debygol o gael ei gosod neu ei osod, o dan ba amgylchiadau na ellir ei gosod neu ei osod; swm unrhyw gosb ariannol; sut i ryddhau cosbau a hawliau apelio ac ati;
 - bod y canllawiau yn cael eu diwygio pan fo'n briodol;
 - bod yr awdurdod yn ymgynghori â phersonau a bennir yn rheoliadau Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau; a
 - bod yr awdurdod yn rhoi sylw i'r canllawiau wrth arfer swyddogaethau.
58. Pan roddir pŵer i awdurdod lleol i osod sancsiwn sifil mewn perthynas â throsedd rhaid i'r awdurdod hefyd –
- llunio a chyhoeddi canllawiau ar sut y mae'r drosedd i'w gorfodi (gweler adran 64 o DGRhS);
 - cyhoeddi adroddiadau am yr achosion lle y gosodwyd y sancsiwn sifil (gweler adran 65 o DGRhS).
59. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth yn galluogi awdurdod lleol i osod sancsiwn sifil mewn perthynas â throsedd oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y bydd yr awdurdod yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion a ganlyn (y cyfeirir atynt yn DGRhS fel yr egwyddorion rheoleiddiol ("regulatory principles")) wrth arfer y pŵer hwnnw –
- bod gweithgarwch rheoleiddiol yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson; a
 - na ddylai gweithgarwch rheoleiddiol fod wedi ei dargedu ond at achosion lle bod angen gweithredu.
60. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi pŵer i osod sancsiynau sifil, rhaid iddynt adolygu sut y mae'r pŵer hwnnw yn cael ei weithredu (gweler adran 67 o DGRhS) a chânt atal pŵer awdurdod lleol i osod sancsiynau o'r fath (gweler adran 68 o DGRhS).

55. Part 3 of RESA allows the Welsh Ministers to make regulations to provide for alternative civil sanctioning powers for relevant criminal offences that relate to regulatory non-compliance. The civil sanctions available under RESA are fixed monetary penalties, discretionary requirements, stop notices and enforcement undertakings. They are an alternative to, rather than a replacement for, criminal conviction especially for minor breaches of regulatory requirements.
56. Subsection (3) applies section 63 to 69 of RESA to regulations made under this section as they would apply to an order made under Part 3 of RESA. The effect of subsection (3) is set out in the following paragraphs.
57. Where the Welsh Ministers confer power on a local authority to impose a civil sanction in relation to an offence, the Welsh Ministers must also ensure the following results (see section 63 of RESA) –
- that the authority publishes guidance about its use of the sanction;
 - that guidance contains specified information, depending on the type of sanction - such as the circumstances in which a monetary penalty or stop notice is likely to be imposed, the circumstances in which it cannot be imposed; the amount of any monetary penalty; how to discharge penalties and rights of appeal and similar;
 - that the guidance is revised where appropriate;
 - that the authority consults persons specified in the Welsh Ministers' regulations before publishing any guidance; and
 - that the authority has regard to the guidance in exercising functions.
58. Where power is conferred on a local authority to impose a civil sanction in relation to an offence the authority must also –
- prepare and publish guidance about how the offence is to be enforced (see section 64 RESA);
 - publish reports about the cases in which the civil sanction has been imposed (see section 65 RESA).
59. The Welsh Ministers may not make provision enabling a local authority to impose a civil sanction in relation to an offence unless the Welsh Ministers are satisfied that the authority will act in accordance with the following principles (referred to in RESA as “the regulatory principles”) in exercising that power –
- that regulatory activities should be carried out in a way which is transparent, accountable, proportionate and consistent; and
 - that regulatory activities should be targeted only at cases in which action is needed.
60. Where the Welsh Ministers have conferred a power to impose civil sanctions, they must review how that power is being operated (see section 67 of RESA) and may suspend the power of a local authority to impose such sanctions (see section 68 of RESA).

61. Rhaid i dderbyniadau o sancsiynau sifil – e.e. o dalu cosbau ariannol – gael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru pan fo gan yr awdurdod lleol swyddogaethau o ran Cymru yn unig; ac i Gronfa Gyfunol y DU pan fo gan yr awdurdod gorfodi swyddogaethau o ran Cymru a rhan arall o'r DU (gweler adran 69 o DGRhS).
62. Mae is-adran (4) yn cymhwyso adran 60(1) a (2) o DGRhS i reoliadau a wneir o dan yr adran hon fel y byddent yn gymwys i orchymyn a wneir o dan Ran 3 o DGRhS.
63. Rhaid i reoliadau sy'n gwneud darpariaeth a alluogir gan yr adran hon fod wedi eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol.

Adran 18 - Troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig eraill

64. Mae'r adran hon yn darparu bod achos am droseddau o dan y Ddeddf hon yr honnir eu bod wedi eu cyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig heblaw partneriaeth i'w dwyn yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'i haelodau. Mae unrhyw ddirwyon ar euogfarn am drosedd o dan y Ddeddf i'w talu o asedau'r bartneriaeth neu gronfeydd y gymdeithas.

Adran 19 - Atebolrwydd troseddol uwch-swyddogion etc.

65. Pan fo trosedd o dan y Ddeddf yn cael ei chyflawni gan gorff corfforedig, partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig heblaw partneriaeth mae'r adran hon yn ei gwneud yn bosibl, o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), i unigolion sy'n dal swyddi cyfrifol yn y corff perthnasol, y bartneriaeth berthnasol neu'r gymdeithas berthnasol (yr "uwch-swyddogion" a ddiffinnir gan yr adran) i fod yn droseddol atebol am drosedd.

Cyffredinol

Adran 20 - Dehongli

66. Mae'r adran hon yn darparu diffiniadau a chyfeiriadau at ddiffiniadau ar gyfer y termau a ganlyn a ddefnyddir yn y Ddeddf: 'awdurdod lleol', 'bag siopa', 'cynnyrch plastig', 'cynnyrch plastig untro gwaharddedig', 'defnyddiwr', 'partneriaeth', 'plastig', 'swyddog awdurdodedig awdurdod lleol', 'untro'.

Adran 21 - Rheoliadau

67. Mae'r adran hon yn esbonio sut y mae pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon i'w harfer ac yn nodi'r weithdrefn gymwys i'w dilyn wrth wneud y rheoliadau hynny.

Adran 22 - Dod i rym

68. Mae'r adran hon yn nodi darpariaethau'r Ddeddf a ddaw i rym ar y diwrnod drannoeth dyddiad y Cydsyniad Brenhinol (adrannau 3, 4, 17, 21, 22, 23); a'r rheini a ddaw i rym yn unol â gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru (sef y gweddill).

61. Receipts from civil sanctions – e.g. from the payment of monetary penalties – must be paid into the Welsh Consolidated Fund where the local authority has functions only in relation to Wales, and into the UK Consolidated Fund where the enforcement authority has functions in relation to Wales and another part of the UK (see section 69 of RESA).
62. Subsection (4) applies section 59 and 60(1) and (2) of RESA to regulations made under this section as they would apply to an order made under Part 3 of RESA.
63. Regulations making provision enabled by this section must be made under the affirmative procedure.

Section 18 - Offences committed by partnerships and other unincorporated associations

64. This section provides that proceedings for offences under the Act alleged to have been committed by a partnership or unincorporated association other than a partnership are to be brought in the name of the partnership or association and not in the name of any of its members. Any fines on conviction for an offence under the Act are to be paid out of the assets of the partnership or the funds of the association.

Section 19 – Criminal liability of senior officers etc.

65. Where an offence under the Act is committed by a body corporate, partnership or an unincorporated association other than a partnership this section makes it possible, in the circumstances described in subsection (2), for individuals holding positions of responsibility within the relevant body, partnership or association (the “senior officers” defined by the section) to also be criminally liable for an offence.

General

Section 20 – Interpretation

66. This section provides definitions and signposting to definitions for the following terms used in the Act: ‘authorised officer of a local authority’, ‘carrier bag’, ‘consumer’, ‘local authority’, ‘partnership’, ‘plastic’, ‘plastic product’, ‘prohibited single-use plastic product’, ‘single-use’.

Section 21 – Regulations

67. This section explains how powers to make regulations under this Act are to be exercised and sets out the applicable procedure to be followed in making those regulations.

Section 22 – Coming into Force

68. This section sets out the provisions of the Act that will come into effect on the day after the date of Royal Assent (sections 3, 4, 17, 21, 22, 23); and those that will come into force in accordance with a commencement order made by the Welsh Ministers (being the remainder).

Yr Atodlen

69. Cyflwynir yr Atodlen gan adran 2 ac mae'n cynnwys tabl sy'n nodi'r cynhyrchion plastig untro gwaharddedig o dan y Ddeddf. Mae'r cynhyrchion plastig untro gwaharddedig a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl fel a ganlyn:
- Cwpanau
 - Cytleri
 - Troyddion diodydd
 - Caeadau ar gyfer cwpanau neu gynhwysyddion cludfwyd
 - Gwellt
 - Platiau
 - Cynhwysyddion cludfwyd
 - Ffyn balwnau
 - Bagiau siopa
 - Ffyn cotwm
 - Unrhyw gynnyrch a wnaed o blastig ocso-ddiraddiadwy
70. Ar y cyfan, mae cynnyrch wedi ei restru yng Ngholofn 1 ni waeth o ba math o blastig y'i gwnaed. Yr unig eithriad i'r egwyddor hon yw cynhyrchion a wnaed o blastig ocso-ddiraddiadwy. Mae'r cynhyrchion hyn wedi eu gwahardd oherwydd y math o blastig y'u gwnaed ohono yn hytrach nag oherwydd y cynnyrch ei hun. Mae cyflenwi cynhyrchion ocso-ddiraddiadwy wedi ei wahardd ym mhob achos, pa un a yw'r cynnyrch hefyd wedi ei restru mewn lle arall yn y tabl, ac y gall fod yn ddarostyngedig i esemptiadau yn rhinwedd hynny, ai peidio. Er enghraifft, ni fyddai cyflenwi bag siopa plastig untro sy'n ddarostyngedig i esemptiadau wedi ei esemptio mewn gwirionedd os yw'r bag wedi ei wneud o blastig ocso-ddiraddiadwy.
71. Mae Colofn 2 o'r tabl yn darparu ar gyfer esemptiadau sy'n gymwys mewn cysylltiad â math penodol o gynnyrch neu at y diben y cyflenwir y cynnyrch ar ei gyfer. Mae'r rhain yn cynnwys esemptiadau ar gyfer unrhyw gwpan neu gynhwysydd cludfwyd nad yw wedi ei wneud o bolystyren ehangedig neu bolystyren allwthiedig ewynnog ac esemptiad ar gyfer cyflenwi gwelltyn plastig untro i berson sydd ei angen am resymau iechyd neu anabled.
72. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer o dan adran 3 i wneud rheoliadau i ddiwygio'r esemptiadau hyn yn y dyfodol; er enghraifft gellid dileu'r esemptiad ar gyfer cwpanau neu gynhwysyddion cludfwyd a wnaed o blastig heblaw polystyren.
73. Mae'r Atodlen hefyd yn darparu'r diffiniadau ar gyfer y cynhyrchion plastig untro gwaharddedig a restrir yn y tabl, ac ar gyfer y diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn yr esemptiadau yng ngholofn 2 o'r tabl.

Adran 23 – Enw byr

74. Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

Schedule

69. The Schedule is introduced by section 2 and includes a table that sets out the prohibited single-use plastic products under the Act. The prohibited single-use plastic products listed in column 1 of the table are as follows:
- Cups
 - Cutlery
 - Drink-stirrers
 - Lids for cups or takeaway food containers
 - Straws
 - Plates
 - Takeaway food containers
 - Balloon sticks
 - Carrier bags
 - Cotton buds
 - Any product made of oxo-degradable plastic
70. In the main, a product is listed in Column 1 irrespective of the type of plastic it is made from. The only exception to this principle is products made of oxo-degradable plastic. These products are prohibited on account of the type of plastic they are made from rather than because of the product itself. Supply of oxo-degradable products is prohibited in all cases whether or not the product is also listed elsewhere in the table and might be subject to exemptions in that capacity. For example, supply of a single-use plastic carrier bag that is subject to an exemption would not in fact be exempted if the bag is made of oxo-degradable plastic.
71. Column 2 of the table provides for exemptions that apply in respect of a particular type of product or the purpose for which the product is supplied. These include exemptions for any cup or takeaway food container that is not made from expanded or foamed extruded polystyrene and an exemption for supply of a single-use plastic straw to a person who requires it for health or disability reasons.
72. The Welsh Ministers have the power under section 3 to make regulations to amend these exemptions in the future; for example, they might remove the exemption for cups or takeaway food containers made of plastic other than polystyrene.
73. The Schedule also provides for the definitions for the prohibited single-use plastic products listed in the table, and for the definitions of terms used in the exemptions in column 2 of the table.

Section 23 – Short Title

74. The short title of this Act is The Environmental Protection (Single-use Plastic Products) (Wales) Act 2023.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

75. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:

<https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IID=39943>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	20 Medi 2022
Cyfnod 1 - Dadl	11 Hydref 2022
Cyfnod 2 - Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	9 Tachwedd 2022
Cyfnod 3 - Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	6 Rhagfyr 2022
Cyfnod 4 - Cymeradwywyd gan y Senedd	6 Rhagfyr 2022
Y Cydsyniad Brenhinol	6 Mehefin 2023

© 2023 Hawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

*These notes refer to the Environmental Protection (Single-use Plastic Products) (Wales) Act 2023
(asc 2)
which received Royal Assent on 6 June 2023*

RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU

75. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at:

<https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=39943>

Stage	Date
Introduced	20 September 2022
Stage 1 - Debate	11 October 2022
Stage 2 - Scrutiny Committee - consideration of amendments	9 November 2022
Stage 3 - Plenary - consideration of amendments	6 December 2022
Stage 4 - Approved by the Senedd	6 December 2022
Royal Assent	6 June 2023

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-11971-8



9 780348 119718